CYD-BWYLLGOR PARTNERIAETH

DYDD GWENER, 7FED HYDREF, 2022

CYFARFOD RHITHWIR
10.04-10.47 YB

CADEIRYDD: Y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin

Aelodau â Phleidlais	
Y Cynghorydd Darren Price	Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd Robert Smith	Yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Abertawe
Y Cynghorydd David Simpson	Arweinydd, Cyngor Sir Penfro
Y Prif Weithredwr	
Mrs Wendy Walters	Prif Weithredwr (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Mr Martin Nicholls	Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Abertawe)
Cyfarwyddwyr Addysg	
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfarwyddwr Arweiniol)
Mr Steven Richards-Downes	Cyngor Sir Penfro – Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol
Ms. Helen Morgan-Rees	Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Y Cynghorydd Guy Woodham	Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, (Cyngor Sir Penfro)
Y Cynghorydd Rob Stewart	Arweinydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Mr Jonathan Haswell	Swyddog A151 Partneriaeth (Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro)
Mr Ian Altman	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Ms Helen Lewis	Adnoddau Dynol Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)

Mr Mark Campion	Estyn
Mrs Sharen Davies	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mr Matthew Holder	Pennaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Matthew Holder	Pennaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Sarah Edwards	Dirprwy Swyddog A151 Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Mrs Janine Owen	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd)
Mrs Kelly Evans	Cyngor Sir Gaerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd, cymryd nodiadau)
Mr Aled Eynon	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)

1. ETHOL CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR AM GYFNOD O DWY FLYNEDD

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried enwebiadau i'w penodi i swydd y Cadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd.

PENDERFYNWYD y bydd yr aelod canlynol yn cael ei ethol:-

1.1 Penodi'r Cynghorydd Darren Price (Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin) yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd William Bramble (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro) a Chris Llewelyn (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Roedd Sharon Davies (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn bresennol yn y cyfarfod ar ei ran.

(Noder: Gadawodd y Cynghorydd Rob Stewart y cyfarfod bryd hynny)

3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

4. COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH AR 29 EBRILL 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2022 yn gofnod cywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2022.

6. ADRODDIAD ARIANNOL PARTNERIAETH 2022-23 (AWST 2022)

Cafodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Partneriaeth ar ddiwedd mis Awst 2022 a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2022-23.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl benodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdod Lleol
- Cyllideb Amlinellol Partneriaeth 2022/23
- Monitro'r Gyllideb – Awst 2022
- Incwm Grant ar gyfer 2022-23
- Risgiau a Chyfleoedd

Cynghorwyd y Cyd-bwyllgor, oherwydd bod cynigion cyflog yn uwch na'r hyn yn y gyllideb, bydd angen newid y gyllideb pan fydd y cynigion cyflog wedi'u cwblhau. Bydd angen i'r Cyd-bwyllgor ystyried ariannu'r pwysau hyn yn y dyfodol.

.

Cyfeiriwyd at y swyddfeydd a ddefnyddir gan Partneriaeth ac awgrymwyd o bosib defnyddio swyddfeydd y Cyngor o fewn y tri Chyngor yn unig i wneud arbedion effeithlonrwydd. Dywedwyd y bydd swyddfeydd yn cael eu hystyried yn ystod y flwyddyn, i weld a ellid gwneud unrhyw arbedion cyllideb.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

6.1 Nodi adroddiad monitro'r gyllideb fel yr oedd ym mis Awst 2022;

6.2 Nodi'r alldro a ragwelir ar gyfer 2022-23

7. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor fersiwn ddrafft o Siarter Archwilio Mewnol Partneriaeth i'w hystyried.

Bydd y Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a bydd yn cael ei chyflwyno'n ôl i'r Cyd-bwyllgor angen gwneud unrhyw newidiadau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o'r Siarter Archwilio Mewnol.

8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH / CYNLLUN BUSNES 2022-23

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ynghylch trosolwg o'r gwaith a wnaed y tymor hwn yn ogystal â chynlluniau ar gyfer cyflawni a monitro Cynllun Busnes 2022-23 a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth bresennol Partneriaeth.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, dywedodd Swyddog Arweiniol Partneriaeth wrth y Cyd-bwyllgor y bydd Adroddiad Gwerthuso yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth ar gyfer 2022-23, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

9. COFRESTR RISGIAU

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor broffil risg cyffredinol y rhanbarth. Nodwyd bod y risgiau canlynol o debygolrwydd canolig ac effaith uchel:

- Methu cefnogi Awdurdodau Lleol mewn meysydd perthnasol wrth ymgysylltu ag Estyn
- Prydlondeb Cyllid Llywodraeth Cymru
- Diffyg Eglurder o ran swyddogaethau Partneriaeth

Gwnaed ymholiad ynghylch risg y cwricwlwm, ac mewn ymateb i hynny, cafodd y Cyd-bwyllgor wybod y byddai'r naratif yn cael ei gryfhau drwy ychwanegu rhagor o wybodaeth.

PENDERFYNWYD:-

9.1. Nodi'r proffil risg

9.2. Derbyn yr adroddiad risg, yn amodol ar ychwanegu gwybodaeth ychwanegol fel yr uchod.

10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTERIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

_____ _____

CHAIR **DATE**